Defnyddiwch eich **CYMRAEG** yn y gwaith

Use your **WELSH** at work

# Adroddiad Monitro Blynyddol





# Gwasanaethau Cymraeg

**2019 - 2020**



NHS WALES GIG CYMRU

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | **1** |
| **Cefndir a'r sefyllfa bresennol** | **2** |
| **Hunanreoleiddio a Llywodraethu** | **3** |
| **Safonau'r Gymraeg** | **6** |
| ***Mwy na Geiriau*** | **8** |
| **Datblygiadau Hyfforddiant y Gymraeg** | **10** |
| **Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn** | **14** |
| **Gwasanaethau Gofal Cychwynnol** | **15** |
| **Y Gwasanaeth Cyfieithu** | **17** |
| **Datblygiadau'r Gwasanaeth a Phrif Gyflawniadau** | **19** |
| - **Prosiect Iechyd Meddwl** | **25** |
| - **Cymraeg i Blant** | **26** |
| - **Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau** | **27** |
| **Data Dangosyddion Perfformiad** | **29** |
| • **Cynllunio'r Gweithlu** | **29** |
| • **Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg** | **35** |
| • **Recriwtio** | **36** |
| • **Cwynion** | **37** |
| **Casgliad a Blaen Weledigaeth ar gyfer 2020 - 2021** | **37** |

# Crynodeb Gweithredol

Hwn yw'r adroddiad cyntaf i fynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i roi cyfrif blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers y dyddiad rhoi ar waith ar 30 Mai 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran paratoi'r sefydliad ar gyfer y dyddiad gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Safonau o dan Fesur y Gymraeg 2011.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gofynion a'r cynnwys fel y nodir yn Safon 120 Safonau'r Gymraeg:

- Cwynion
- Cynllunio'r Gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i wella sgiliau iaith yn y Gymraeg

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o gynnydd cyffredinol, gan gynnwys cyflawniadau allweddol ac arfer da, ynghyd â meysydd i'w datblygu.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu gwaith a wnaed i ddatblygu'r *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog*, rhoi *Mwy na Geiriau* ac egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith, sy'n golygu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg heb fod angen i'r defnyddiwr gwasanaeth ofyn amdano. Mae Cynllun Strategol a Rhaglen Waith gysylltiedig ar waith i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni'n gynhwysfawr. Mae hunanlywodraethu a monitro hefyd yn agweddau allweddol ar y gwaith a wnaed eleni sydd wedi arwain at fesurau perfformiad ac atebolrwydd gwell.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiadau blynyddol blaenorol y Bwrdd Iechyd, gan adlewyrchu gwelliannau a chynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni gyfeirio hefyd at yr adeg hynod heriol a digynsail y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei hwynebu o ystyried lledaeniad pandemig byd-eang y Coronafeirws (COVID-19). O fis Mawrth 2020 ymlaen, roedd Tîm y Gymraeg wedi addasu i weithio o'r cartref gan barhau i roi gwasanaeth cymorth llawn i staff, er nad yw wedi bod yn bosibl bod yn rhagweithiol o ran datblygu prosiectau pellach ar hyn o bryd. Cafodd yr holl gyfarfodydd eu canslo, a chan fod y sefyllfa'n newid o ddydd i ddydd, cafodd ychydig o aelodau staff eu hadleoli am ddeuddydd neu dridiau bob wythnos er mwyn rhoi cymorth mewn sectorau eraill. Fodd bynnag, achubwyd ar bob cyfle i bwysleisio pwysigrwydd parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a chafodd neges yn cyfleu hyn ei hanfon at uwch aelodau o staff. Gwnaeth y tîm cyfieithu barhau i ddarparu gwasanaeth llawn, ac roeddent yn dal i fod yn hynod brysur yn cyfieithu nodiadau briffio dyddiol, datganiadau i'r wasg, a llythyrau cleifion a thaflenni gwybodaeth wrth i'r Bwrdd Iechyd addasu i'r normalrwydd newydd. Cynigiodd tiwtor y Gymraeg wersi Cymraeg dros Skype ac e-bost i ddysgwyr y Bwrdd Iechyd a hefyd ar dudalennau Facebook a Twitter 'Dysgwyr Betsi'.

# Cefndir a’r sefyllfa bresennol

Mae'r adroddiad hwn, nid yn unig yn adlewyrchu cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y gofynion a nodir yn Safon 120, mae hefyd yn dangos sut rydym wedi cynllunio ein gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

**Deall anghenion ein poblogaeth**

Mae deall anghenion y boblogaeth yn hanfodol i lywio ein gallu i gynllunio gwasanaethau yng ngogledd Cymru a'u darparu. Mae'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, sef 65 y cant, er y gwyddom fod hyn yn llawer uwch mewn rhai ardaloedd yn y sir. Mewn ardaloedd eraill o Ogledd Cymru, mae 57 y cant o drigolion Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 27 y cant yng Nghonwy a 25 y cant yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (13.2 y cant) a Wrecsam (12.9 y cant) yn is o'i gymharu, ond mae'r galw am wasanaethau Cymraeg yn amlwg, o gofio'r ardaloedd gweledig lle siaredir Cymraeg ac sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir yn nwyrain Gogledd Cymru.

Mae *Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru*[1] yn dangos bod ychydig dros hanner (53 y cant) o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd Cymru yn rhugl yn yr iaith a bod 63 y cant yn ei siarad bob dydd. Yng Ngwynedd, mae 78 y cant o drigolion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr iaith ac mae 85 y cant yn ei siarad bob dydd. Mae lefel y Gymraeg a siaredir, yn enwedig yng ngogledd orllewin y rhanbarth, yn dylanwadu ar nifer y bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg. Yng Ngwynedd, mae 37 y cant o bobl yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob tro wrth gysylltu â gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i nodi'r angen am wasanaethau Cymraeg ac felly mae wedi'n galluogi i gynllunio i fodloni'r galw hwn.

**Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd**

Mae Tîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n cynorthwyo'r sefydliad i fodloni gofynion deddfwriaethol ac i fynd i'r afael ag anghenion ein cleifion.

1. Cydymffurfio â Deddfwriaeth
   Sicrhau ein bod yn cefnogi'r sefydliad i fodloni ei rwymedigaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi'i hwyluso gan ein Swyddog Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg.
2. Hybu ac Ymgysylltu
   Yn unol ag elfennau gweithredol cyflwyno Fframwaith Strategol *Mwy na geiriau*, mae ein Swyddogion Cymraeg yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau ac i ddechrau prosiectau a chynlluniau a fydd yn cynnig gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid.
3. Darpariaeth Hyfforddiant
   Mae ein Tiwtor y Gymraeg a'n Swyddog Cefnogi yn sicrhau datblygiad sefydliadol yn unol â'n Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ac agenda ehangach y


[1] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Iechyd/Asesiad-Poblogaeth-Gogledd-Cymru/NW-Population-Assessment-1-April-2017cym.pdf

Gymraeg.

4. <u>Gwasanaethau Cyfieithu</u>
   Mae ein huwch gyfieithydd a phum cyfieithydd arall yn sicrhau bod y sefydliad yn gallu cynnig gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith, ac maent hefyd yn cynnig cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso dewis iaith mewn lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

## Hunanreoleiddio a Llywodraethu

Mae datblygu strategaeth glir yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion ac mae ein Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg, wedi'n galluogi i ganolbwyntio trwy ein dimensiynau Newid Ymddygiad, Ymyrraeth Strategol a Llywodraethu a Pherfformiad.




Mae ein rhaglen waith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'i hadeiladu ar y dimensinau allweddol hyn ac rydym wedi gweld bod ein gwasanaethau'n mynd o nerth i nerth.

**Atebolrwydd Cyffredinol y Bwrdd**

Mae Fforwm Strategol y Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, yn sefydlu ein trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn llywio ein hymagwedd strategol, ac mae aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sy'n gallu gyrru gofynion yn eu blaen. Mae'r Fforwm yn adrodd wrth Bwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth yn y Bwrdd Iechyd, sy'n Bwyllgor i'r Bwrdd, a chaiff ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd. Mae llwybr craffu clir ar waith ynghyd â threfniadau i ddwysáu unrhyw faterion o bwys.

## Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg

Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg a bod Cofrestr Risg bwrpasol ar waith. Mae'r risgiau posibl presennol yn cynnwys bodloni anghenion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhoi egwyddor y Cynnig Rhagweithiol ar waith yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru, sef *Mwy na geiriau,* a chyflwyno'r *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog*.

Mae'r holl risgiau wedi parhau i fod yr un peth yn ystod 2019-2020, ac mae'r gyfradd risg wedi'i graddio fel cymedrol neu ddibwys ar hyn o bryd. Mae rheolyddion wedi'u rhoi ar waith i leddfu unrhyw faterion cymhleth ac i bennu camau pellach sydd eu hangen er mwyn cyflawni sgôr risg darged. Efallai y bydd y pandemig presennol yn gwneud y risgiau'n fwy oherwydd anallu'r tîm i fod yn rhagweithiol yn ystod y cyfnod hwn. Caiff hyn ei ystyried wrth asesu'r risgiau.

Caiff Cofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg ei monitro bob chwarter, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.

## Ymgorffori'r Gymraeg i gynllunio a pherfformiad ehangach

Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yng nghylluniau cyffredinol ehangach y sefydliad yn allweddol i gyflawni ein nodau a'n dimensiynau. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn fanylach am y tymor hir, gyda phwyslais ar Gymru sydd â diwylliant llewyrchus ac mae iaith Gymraeg ffyniannus yn un o'i saith nod o ran llesiant. Mae hyn yn ein hysgogi i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill, yn ogystal â'n cymell i fabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Fel y cyfryw, mae gofynion iaith Gymraeg wedi'u prif ffrydio yn ein strategaeth ar gyfer y dyfodol, *Byw'n Iach, Aros yn Iach*, ac mae nodau byrdymor ac ymrwymiad wedi'u sefydlu yn ein Cynllun Tair Blynedd. Mae hyn wedi'n galluogi i uno ein gofynion o ran cyflwyno Safonau'r Iaith Gymraeg a *Mwy na geiriau*, yn ogystal â meddu ar ffocws clir ar ddatblygu ein *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog*, gan arwain y ffordd o ran cynnig Gwasanaeth Cyfieithu cynhwysfawr a hwyluso datblygiadau Gofal Cychwynnol fel rhan o gynllunio clystyrau. Mae Tîm y Gymraeg yn rhoi diweddariadau ddwywaith y flwyddyn i'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar ei chynllun gwasanaeth gweithredol, gan roi sicrwydd a chyfradd RAG o ran ein cydymffurfiaeth a'n terfynau amser.

Mae gofynion iaith Gymraeg wedi'u hymgorfforori yn Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd, yn adrodd ar gyflawnrwydd data sgiliau Cymraeg ar Gofrestr Staff Electronig. Mae unrhyw dordyletswydd neu fethiant i gyflawni targedau'n gofyn am gwblhau adroddiad eithriadau, yn manylu ar gamau cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer y chwarter nesaf.

Mae blaenoriaethau allweddol o ran y Gymraeg wedi'u hymgorffori hefyd yn Fframwaith Cyflenwi GIG Cymru a chaiff adroddiadau eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn trwy'n Cyfarwyddiaeth Perfformiad i'w cyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio i brosesau mewnol a monitro, gan sicrhau llwyfan sefydliad cyfan o ran perchnogaeth a chyflenwi.

## Sicrwydd Perfformiad Mewnol

**Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog (Siopwr Cudd)**
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog mewnol yn ystod 2019-20.

Trwy gyfuniad o ymweliadau safle ac arolygon siopwr cudd, mae'r cynllun parhaus hwn – a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2018 – yn parhau i graffu faint o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael a'u hansawdd mewn gwahanol leoliadau BIPBC yn chwarterol.

Mae nifer o ysbytai cymunedol, meddygfeydd a reolir ac adrannau ysbyty llym yn cael eu cynnwys ym mhob rownd o arolygon, sy'n canolbwyntio ar arwyddion (parhaol a dros dro) a darpariaeth gwasanaethau derbynfa a gwasanaethau ffôn.

Ar ôl i'r archwiliadau hyn gael eu cwblhau, mae'r rheolwyr safle/Meddygfa/ gwasanaeth perthnasol yn cael adroddiadau pwrpasol (sy'n cynnwys dadansoddiad o'r darganfyddiadau perthnasol ac awgrymiadau ar gyfer camau posibl/gofynnol) ac ar ôl hynny fe'u gwahoddir i weithio ochr yn ochr ag aelodau Tîm y Gymraeg BIPBC i sicrhau bod unrhyw newidiadau a / neu welliannau gofynnol yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

Wrth i reolwyr barhau i fod yn barod ac yn ymrwymedig i sicrhau gwelliannau, mae gweithrediad parhaus y Cynllun Monitro Gwasanaeth Dwyieithog wedi parhau i sicrhau y gellir dynodi a chywiro gwahanol ddiffygion yn gyflym mewn safleoedd ar draws Gogledd Cymru ac mae hyn yn naturiol wedi cyfrannu at ddatblygiad a gwelliant cyffredinol Darpariaeth Cymraeg y Bwrdd Iechyd yn ystod 2019-20.

Hefyd, gan fod rhai safleoedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog am yr ail waith, yn ddiweddar daeth yn bosibl mesur a yw cynnydd yn cael ei wneud mewn ysbytai cymuned a meddygfeydd a reolir penodol.

Yn wir, trwy gymharu data sydd newydd ei gasglu â chanlyniadau sylfaenol cychwynnol (o arolygon a gynhaliwyd yn ystod haf a hydref 2018), mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod faint o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael ac ansawdd cyffredinol darpariaeth gwasanaeth Cymraeg wedi gwella mewn gwahanol leoliadau yn ystod y deunaw mis diwethaf

Mae hyn yn arbennig o wir am safleoedd yn Ardal y Dwyrain y Bwrdd Iechyd, ble mae camau penodol wedi'u cymryd yn ddiweddar i sicrhau cynnydd, ar ôl i rowndiau blaenorol arolygon Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog ddatgelu fod safon gwasanaethau Cymraeg mewn un Feddygfa a reolir yn y rhanbarth yn anfoddhaol.

Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach, mae ansawdd darpariaeth ddwyieithog yn y feddygfa benodol honno wedi gwella'n sylweddol, ac mae datblygiadau cadarnhaol tebyg wedi'u cofnodi mewn nifer o safleoedd eraill yn Ardal y Dwyrain.

Ynghyd â thystiolaeth o gynnydd, mae'r Cynllun Monitro Gwasanaeth Dwyieithog hefyd yn rhoi sicrwydd, gan fod canfyddiadau diweddar wedi cadarnhau bod safonau

uchel a gofnodwyd yn flaenorol yn cael eu cynnal mewn sawl lleoliad yn Ardal y Gorllewin y Bwrdd Iechyd.

Y tu hwnt i hyn, mae'r arolygon 'siopwr cudd' parhaus hefyd wedi parhau i ddatgelu nifer o enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli o ran y Gymraeg: mae'r rhain i gyd yn cael eu cofnodi a'u rhannu wedyn â safleoedd / meddygfeydd / adrannau eraill, fel y bo'n briodol.

Er mwyn sicrhau atebolrwydd cynyddol, mae canfyddiadau cyffredinol yn parhau i gael eu rhannu â Thimau Ardal / Timau Rheoli'r Ysbyty ac aelodau Fforwm Strategol y Gymraeg yn chwarterol.

Trwy wneud hyn, mae tueddiadau ehangach yn parhau i gael eu dynodi (a'u hymdrin â nhw), ochr yn ochr â materion mwy lleol.

## Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg nawr wedi bod yn weithredol ers y dyddiad gosod ar y 30ain o Fai 2019. Soniwyd yn adroddiad y llynedd am ymgyrch fewnol a oedd ar fin cael ei lansio i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion deddfwriaethol newydd gyda'r is-bennawd 'Wyt ti'n barod?'. Anfonwyd cyfres o negeseuon ebost i'r holl staff dros sawl wythnos cyn y 30ain o Fai i ymgysylltu â staff a chodi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau. Crewyd llofnod e-bost hefyd a'i ychwanegu at lofnod e-bost aelodau o Dîm y Gymraeg yn ogystal ag aelodau o Fforwm Strategol y Gymraeg, ac aelodau o'r Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg i sicrhau cylchrediad eang.







Arweiniodd hyn at nifer o ymholiadau gan staff yn ogystal â cheisiadau i'r swyddog cydymffurfio i fynychu cyfarfodydd i drafod y gofynion, a roddodd hefyd gyfle i gael trafodaethau ar faterion penodol gyda gwasanaethau. Mae enghreifftiau o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn cynnwys cyfarfod gydag arweinwyr timau Therapi Iaith a Lleferydd Wrecsam a Sir y Fflint, a thîm Iechyd Meddwl Cymunedol yng Nghonwy, Cyfarfod Grŵp Gweithredol Mân Anafiadau, Ysbyty Alltwen. Mae llyfryn hefyd wedi cael ei gynhyrchu i ddarparu gwybodaeth ar Safonau'r Gymraeg, a'r Gwasanaethau Cymraeg yn gyffredinol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar 'Mwy na Geiriau', y gwasanaeth

cyfieithu, dysgu Cymraeg, adnoddau sydd ar gael, recriwtio yn ogystal â rhestr wirio ar gyfer adrannau.




Un o brif ffocws ar gyfer y Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg oedd cynnal archwiliad i gael gwaelodlin ar gyfer cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg o fewn eu gwasanaethau. Anfonwyd holiadur cynhwysfawr at Gyfarwyddwyr Ysbyty ac aelodau o'r Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg. Dychwelwyd nifer o holiaduron, gan arddangos cynnydd da ar draws y Bwrdd Iechyd yn nhermau ymwybyddiaeth o'r angen i ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r holiaduron yn parhau, gyda gwasanaethau yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd ar gyfer Fforwm Strategol y Gymraeg. Mae enghreifftiau o fannau lle mae cynnydd wedi cael ei wneud yn cynnwys gwasanaethau gweinyddol. Mae pob swydd rheng flaen yn cael eu hysbysebu gyda'r Gymraeg fel sgil hanfodol. Mae arwyddion wedi cael eu darparu ar gyfer pob derbynfa i arddangos argaeledd gwasanaeth Cymraeg. Mae'r cwrs ar lein 10 awr hefyd wedi cael ei hyrwyddo'n eang gyda staff gweinyddol rheng flaen. Hefyd, mae system switsfwrdd newydd yn cael ei ddatblygu i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg, trwy neges awtomataidd, ddewis i gael eu rhoi drwodd i deleffonydd sy'n siarad Cymraeg i ddelio gyda'u hymholiad. Mae hyn wedi golygu buddsoddiad sylweddol gan y Bwrdd Iechyd i wella mynediad at wasanaethau Cymraeg ar gyfer y cyhoedd. Bydd y system newydd yn weithredol o fis Medi/Hydref. Bydd tîm y Gymraeg yn darparu cefnogaeth i staff i sichrau cydymffurfiaeth lawn gyda Safonau'r Gymraeg o'r dechrau.

Ffocws arall ar gyfer y Grŵp Rheoli Prosiect yw datblygiad asesiad yn unol â Safon 63 ar gyfer asesu'r angen i gynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Enghraifft o arfer dda, a'r Bwrdd Iechyd yn addasu i'r normal newydd yn ystod Covid-19, yw datblygiad sesiwn cyn-geni rhithiol dwyieithog. Mae'r adnodd ar lein yn gwbl ddwyieithog ac mae'r gwasanaeth yn gallu darparu sesiynau a chyngor i rieni yn Gymraeg a Saesneg.

Mae polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion mewnol yn aros i gael ei gymeradwyo ac mae'n canolbwyntio ar ledaenu'r Cynllun Dewis iaith gan ddefnyddio'r logo oren 'Iaith Gwaith' ar ffurf magned i adnabod dewis iaith cleifion. Mae'r cynllun hwn a ddechreuwyd fel peilot ar wardiau penodol yn Ysbyty Gwynedd, yn gynnar yn 2017, wedi cael ei ymestyn yn raddol i wardiau ac ysbytai eraill ar draws gogledd Cymru. Wedi'i gynnwys hefyd yn y polisi mae'r gwaith i brif ffrydio'r Gymraeg i'r Cynllun Archredu Wardiau lle mae staff yn derbyn set o safonau i fframio'r agenda ansawdd, diogelwch a gofal cleifion. Mae'r adnoddau ar gyfer y cynllun yn cynnwys byrddau creoesawu dwyieithog, byrddau diogelwch cleifion, byrddau profiadau cleifion a symbolau magnetig.

Mae sawl is-grŵp o'r Grŵp Rheoli Prosiect wedi parhau i gyfarfod er mwyn mynd i'r afael â materion mwy lleol a bydd gwybodaeth neu arfer dda yn cael ei fwydo yn ôl i'r Grŵp Rheoli Prosiect. Un enghraifft yw'r grŵp a sefydlwyd o fewn Ysbyty Glan Clwyd, yn cynnwys Rheolwyr Gweinyddol ar draws bob gwasanaeth. Mae'r aelodau wedi darparu cyfarwyddyd i staff gweinyddol ar ddelio gyda galwadau ffôn, gwasanaethau derbynfa, arwyddion a hyrwyddo gwersi Cymraeg, yn arbennig y cwrs 10 awr ar lein a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg.

## Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau*

Gan fod mis Mawrth 2019 yn nodi diwedd cyfnod tair blynedd a oedd yn cael ei gwmpasu gan fframwaith strategol Llywodraeth Cymru, *Mwy na Geiriau*, datblygwyd Cynllun Gweithredu pellach i ddarparu strwythur clir ar gyfer cynnydd parhaus o ran hybu'r Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn ystod 2019-20.

Mae BIPBC yn parhau i arwain y ffordd yn y maes hwn ac mae cynnal cydymffurfiad eang â'r nodau a'r egwyddorion a eiriolwyd gan *Mwy na Geiriau* yn parhau'n bwysig, yn y cyd-destun hwn.

Gwelir hyn yn amlwg trwy barhau i weithredu Cynllun Dewis Iaith (magnet oren) llwyddiannus y Bwrdd Iechyd, sy'n sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' (h.y. y gellir darparu gwasanaeth Cymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano) yn parhau i fod wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau ar wardiau ysbytai ar draws Gogledd Cymru.

Yn wir, yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'r Cynllun Dewis Iaith wedi'i ymestyn ymhellach i gynnwys wardiau yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam, ac mae'r magnetau hefyd bellach yn cael eu defnyddio i adnabod cleifion sy'n siarad Cymraeg yn bron pob ysbyty cymunedol yn ardal BIPBC.

Mae safle'r Bwrdd Iechyd ar flaen y gad o ran darparu gwasanaeth gofal iechyd Cymraeg yn cael ei adlewyrchu ymhellach gan y ffaith bod rhai o dargedau diweddaraf *Mwy na geiriau* eisoes wedi'u rhoi ar waith o fewn BIPBC ers peth amser, cyn iddynt ymddangos gyntaf yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019-20.

Mae hyn yn wir ar gyfer gweithred 4.1, er enghraifft, sy'n gofyn i "gefnogaeth gael ei rhoi i staff ddarparu gwasanaethau'n Gymraeg, drwy ganolbwyntio yn benodol ar annog siaradwyr Cymraeg a'u grymuso i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'u datblygu': trwy ei hystod o gyrsiau strwythuredig, mae Tiwtor y Gymraeg BIPBC wedi bod yn darparu cefnogaeth o'r fath i weithwyr y Bwrdd Iechyd am dros dair blynedd.

| | |
|---|---|
| 4.1 | Rhoi cefnogaeth i staff ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar annog siaradwyr Cymraeg a'u grymuso i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'u datblygu. |

Hefyd, gall staff BIPBC fynychu sesiynau codi hyder, sydd wedi'u teilwra'n benodol i unigolion sydd ag ychydig o sgiliau Cymraeg eisoes, ond â diffyg hyder ynddynt eu hunain ar hyn o bryd i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.

Er bod rhai o'r targedau yn y Cynllun Gweithredu, *Mwy na Geiriau* 2019-20 o bosibl wedi'u dylanwadu gan fentrau a oedd eisoes ar waith yn BIPBC, mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys nifer o amcanion eraill, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod eu gweithredu o'r dechrau.

Rydym wedi gweithredu'n gyflym i gyfrannu tuag at weithrediad rhanbarthol gweithred 2.5 (isod), er enghraifft:

| | |
|---|---|
| 2.5 | Datblygu peilot Cymraeg Byd Busnes ym maes gofal cychwynnol i gefnogi rhannu arfer gorau. Cynhyrchu pecyn ar gyfer gofal cychwynnol fel rhan o'r gwaith hwn |

Ar ôl darparu nifer o enghreifftiau o arfer da i'w cynnwys yn y pecyn cymorth arfaethedig i ddechrau, bu aelod o Dîm y Gymraeg BIPBC hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Chymraeg Byd Busnes a Llywodraeth Cymru ar gynllun peilot i ddarparu cefnogaeth i saith meddygfa / meddygfa annibynnol / canolfannau meddygol yng nghlwstwr gofal cychwynnol De Sir y Fflint.

Ar yr un pryd, mae aelod arall o'r tîm wedi bod yn cyfrannu at gynllun tebyg, sy'n ceisio darparu cymorth ac anogaeth syml drwy’r Gymraeg i ddarparwyr gofal cychwynnol yn Ynys Môn: datblygwyd y prosiect lleol hwn drwy Fforwm Iaith Ynys Môn (Fforwm Cymraeg Ynys Môn) ac felly mae'n annibynnol o beilot gofal cychwynnol swyddogol Llywodraeth Cymru.

Mae llawer o waith BIPBC o ran *Mwy na geiriau* naill ai'n cael ei lywio, ei arwain neu ei gefnogi gan Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru, sy'n cyfarfod yn chwarterol i hwyluso gweithrediad rhanbarthol parhaus fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Y Bwrdd Iechyd oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r grŵp amlasiantaethol hwn, a gyfarfu gyntaf ym mis Mai 2016 ac a gafodd ei gydnabod wedi hynny am ei waith cadarnhaol a dylanwadol gyda gwobr yn y categori Arloesi yn Nigwyddiad Arddangos *Mwy na geiriau 2017* Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

Mae'r Fforwm - sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau perthnasol (gan gynnwys pob un o'r chwe awdurdod lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor) - wedi parhau i ffynnu yn ystod y deuddeg mis diwethaf, o dan gadeiryddiaeth Morwena Edwards (sef Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd a hefyd Aelod Cyswllt o Fwrdd BIPBC ).

Mae'n parhau i fod yn llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer da ac mae'n parhau i ddangos y manteision o ddilyn dull cydweithredol er mwyn sicrhau bod rhai o amcanion *Mwy na geiriau* yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

Yn wir, mewn ymateb i lwyddiant parhaus Fforwm y Gogledd, cafodd y camau canlynol eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu 2019-20:

| | |
|---|---|
| 6.2 | Cefnogi datblygiad y fforymau rhanbarthol *Mwy na geiriau* ymhellach ar draws Cymru sy'n dwyn ynghyd cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau iechyd a gofal er mwyn hyrwyddo gweithio ar y cyd, rhannu arfer gorau a chefnogi cynnydd ar lefel ranbarthol. |

Gan fod rhai grwpiau *Mwy na geiriau* rhanbarthol eraill wedi'u sefydlu wedi hynny, mae aelodau Tîm y Gymraeg BIPBC wedi parhau i ddarparu cyngor a chymorth, yn ôl yr angen, er mwyn cyflymu eu datblygiad cychwynnol.

# Datblygiadau Hyfforddiant y Gymraeg

Mae hyfforddiant y Gymraeg wedi bod â lle amlwg ac wedi cyflawni rôl allweddol o ran rhoi Safonau'r Gymraeg a'n Strategaeth Ddwyieithog ar waith. Rydym yn parhau i weithio'n strategol i flaenoriaethu darparu hyfforddiant y Gymraeg ar gyfer staff y rheng flaen, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r meysydd canlynol:

- Staff mewn gwasanaethau clinigol y bydd cleifion / defnyddwyr gwasanaeth yn y categorïau canlynol yn eu defnyddio'n rheolaidd:
    - Plant a Phobl Ifanc
    - Pobl Hŷn
    - Pobl ag anableddau dysgu
    - Defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl
    - Gwasanaethau dementia
    - Gwasanaethau Strôc
    - Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd

**Rhaglen Hyfforddiant Mewnol Cymraeg y Bwrdd Iechyd**

Eleni, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r gweithlu er mwyn canfod swyddi y mae gofyn iddynt fod yn rhai 'Cymraeg yn hanfodol' yn unol â safonau'r Gymraeg. Os yw staff nad ydynt yn hyderus nac yn rhugl mewn Cymraeg ar hyn o bryd yn cael eu penodi i'r swyddi hyn, rydym yn cydweithio â'u rheolwyr er mwyn datblygu rhaglen datblygu Cymraeg penodol iddynt fel rhan o'u hadolygiad PADR a'u datblygiad yn eu swyddi newydd.

Er mwyn rhoi Rhaglen Datblygu'r Gymraeg ar waith ar gyfer swyddi sy'n cael eu hysbysebu fel rhai 'Cymraeg yn Hanfodol', rydym wedi ail-lunio a dyfeisio ein Matrics Sgiliau'r Gymraeg er mwyn cynnig arweiniad cliriach ar yr hyn a ystyrir i fod yn rolau 'Cymraeg yn Hanfodol' gan fod rhai swyddi'n gofyn am rugder o ran sgiliau ysgrifenedig ac ar lafar (Sgiliau'r Gymraeg Lefel 5), tra bydd swyddi eraill yn gofyn am

ruglder ar lafar wyneb-yn-wyneb yn unig (Sgiliau'r Gymraeg Lefel 3). Mae darparu dadansoddiad cliriach o sgiliau'r Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi'n caniatáu mwy o eglurder i'r gweithlu yn ystod y broses recriwtio.
Rydym yn parhau i weithio'n strategol, gan gynnig cyrsiau mewnol sy'n cael eu datblygu'n benodol ar gyfer meysydd gwahanol yn y sector iechyd e.e. asesiadau meddygol, gofal yr henoed, cyrsiau derbynfa a blaen y tŷ, ateb a delio ag ymholiadau dros y ffôn.

Eleni, rydym hefyd wedi parhau i weithio ar y cyd â Chanolfan yr Ôl-raddedigion yn Ysbyty Gwynedd a gwnaethom ddatblygu cwrs blasu ar y Gymraeg penodol ar-lein er mwyn helpu i recriwtio meddygon F1 a chymrodorion clinigol. Pwrpas y cwrs yw dangos sut y gall BIPBC gynnig cymorth i staff sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

**Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg - *Coleg Cymraeg Cenedlaethol***

Y Bwrdd Iechyd yw'r sefydliad cyntaf a'r unig un yng Nghymru ar wahân i sefydliadau addysg uwch i beilota'r fenter hon.
Mae'r *Dystysgrif Sgiliau Iaith* yn gymhwyster sydd wedi'i chydnabod a'i hachredu gan y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* a Chydbwyllgor Addysg Cymru a ddatblygwyd i alluogi ymgeiswyr i ennill tystysgrif i ddangos tystiolaeth o'u sgiliau iaith Gymraeg a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ei nod hefyd yw hybu'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth leol a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn dilyn llwyddiant y cynllun yn 2018/19, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cynnig i barhau i gydweithio â'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, gan ymestyn y cytundeb ymhellach, eleni, gwnaeth tri aelod o staff gwblhau'r arholiad llafar ond oherwydd y pandemig Covid-19, mae'r arholiad ysgrifenedig wedi'i ohirio ac rydym yn aros am ddyddiad newydd ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig.

**Gweithio gyda rhaglen Cymraeg Gwaith, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Dechreuodd y rhaglen beilot yn 2017 gyda menter Cymraeg Gwaith yn cynnig cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn a mynediad at gwrs cychwynnol blas ar-lein, cyn dechrau rhoi cynllun penodol ar waith ar gyfer BIPBC ym mis Ebrill 2018, a arweiniodd at benodi Swyddog Cefnogi pwrpasol i gefnogi aelodau o staff sy'n cofrestru am gyrsiau Cymraeg Gwaith ac yn eu cwblhau.

**Swyddog Cefnogi Hyfforddiant y Gymraeg**

**Enghraifft o gyflawniadau a llwyddiannau o ran dysgu'r Gymraeg**
Gyda thros 650 o staff yn manteisio ar hyfforddiant yn y Gymraeg dros y flwyddyn adrodd flaenorol, mae nifer o enghreifftiau o arfer ardderchog a llwyddiannau. Dyma rai enghreifftiau ysbrydoledig o unigolion a grwpiau sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg dros y 12 mis diwethaf.

Mae'r Swyddog yn gaffaeliad mawr ac mae'n dod â'r buddion canlynol i BIPBC.

- Cyswllt ar gyfer cyrsiau Cymraeg yn y Gwaith (Cyrsiau Ar-lein, Cyrsiau Dwys a Chyrsiau Nant Gwrtheyrn)

- Cwrs ar-lein - Mae'r cwrs hwn wedi denu cannoedd o staff i roi cynnig ar ddysgu'r Gymraeg erbyn hyn, ac mae wedi arwain at eraill yn ymuno â dosbarthiadau. Gwneir hyn gan fod y swyddog yn hybu ac yn marchnata'r cyrsiau a thrwy gynnig sesiynau galw heibio un-wrth-un er mwyn rhoi hwb a help llaw i staff barhau â'r cwrs.
  Bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd e.e. ym mis Mai 2019, gwnaeth 189 gofrestru a gwnaeth 18 gwblhau'r cwrs Iechyd, ond, erbyn mis Hydref 2019, gwnaeth 282 gofrestru a gwnaeth 35 gwblhau'r cwrs hwn.

- Nant Gwrtheyrn - mae **145** o staff wedi mynychu cyrsiau NG erbyn hyn. Mae pob un o'r cyrsiau wedi bod yn llawn. Bydd y swyddog yn ymuno â'r gwersi am ddiwrnod ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng NG a'r Bwrdd Iechyd. Ar ôl dilyn cwrs yn NG, bydd y Swyddog yn cynnig: cymorth un-wrth-un neu sesiynau galw heibio i'r sawl sydd wedi dilyn y cwrs yn flaenorol. Bydd clwb sgwrsio, y bydd ei aelodau craidd yn dilyn y Cwrs Canolraddol ym mis Hydref, yn dechrau ym mis Ionawr 2020.

- Cyrsiau Dwys - Mae'r Swyddog yn mynd i'r dosbarthiadau bob mis i weithredu fel cyswllt ar gyfer y sawl sy'n dilyn y cwrs, yn ogystal â chael y cyfle i drafod gyda'r tiwtoriaid. Bydd y Swyddog hefyd yn arwain y dosbarth am hanner awr er mwyn trosglwyddo'r hyn sydd wedi'i ddysgu eisoes ac yn ei gymhwyso i'r gweithle.

- Ffrindiaith - cynllun cyfaill ar gyfer siaradwyr rhugl a dysgwyr

- Sesiynau un-wrth-un - yn ôl yr angen e.e. trafod anghenion dysgu, dal i fyny, cyrraedd safon cyrsiau dwys a phreswyl.

- Dysgwr y Flwyddyn - trefnu digwyddiad arbennig sy'n cynnwys nifer o elfennau e.e. hyrwyddo a marchnata, trefnu dyddiadau a lleoliadau, trefnu ffurflenni a cheisiadau, trefnu a dod o hyd i wobrau ac ati.

- Clwb Clebran (sgwrs a phaned) - wedi'i sefydlu yn Y Rhyl i staff ar lefelau amrywiol i gael ei gynnal bob pythefnos

- Rhoi dosbarthiadau dechreuwyr / blasu / pontio a chyrsiau Cymraeg ar-lein.

- Cinio a Chlonc - unwaith y mis ym mwytai'r prif ysbytai

- Stondinau hyrwyddo a marchnata ac ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael i staff ddysgu'r Gymraeg

- Creu taflenni / posteri / dogfennau gwybodaeth i staff

- Teithiau cerdded hyrwyddo a marchnata o amgylch wardiau cymunedol / adrannau / ysbytai

- Sefydlu tudalen gaeedig i staff yn unig ar Facebook fel lle i drafod a lleisio barn, ac un arall i'r cyhoedd yn ehangach, i rannu gwybodaeth a newyddion da

- Ysgrifennu hysbysebion / erthyglau byr i'w cynnwys ym mwletin gwybodaeth wythnosol y Bwrdd Iechyd

- Llunio holiaduron amrywiol a'u dehongli

- Rheoli cronfa ddata wybodaeth dysgwyr BIPBC

- Pwynt cyswllt cyntaf i staff sy'n awyddus i ddysgu'r Gymraeg ac i gael gwybodaeth gynhwysfawr am argaeledd cyrsiau amrywiol a'r opsiynau sydd ar gael i staff yn briodol i'w lefel

**Adborth gan staff sydd wedi mynd i Nant Gwrtheyrn a chyfleoedd amrywiol eraill i ddysgu Cymraeg trwy fenter Cymraeg Gwaith**
**"***Rydw i'n teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr a gallaf ddeall llawer mwy, sy'n fy helpu yng nghlinigau'r Tîm Amlddisgyblaethol i allu dilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud os yw'n well gan y claf siarad yn Gymraeg gydag aelodau eraill o'r Tîm Amlddisgyblaethol.*
*Rydw i'n meddwl bod cleifion yn gwerthfawrogi rhywun sy'n defnyddio ychydig o eiriau ac ymadroddion, hyd yn oed os na allaf gynnal fy ymgynghoriad yn Gymraeg"*
*"Rydw i wedi cael llawer o anogaeth gan fy nghydweithwyr i roi cynnig ar ddefnyddio fy Nghymraeg hyd yn oed os yw'n ychydig eiriau yn unig. Rydw i wedi gweld bod y cleifion yn gwerthfawrogi'r ffaith fy mod yn ceisio siarad Cymraeg, ac maent yn deall fy mod yn dysgu felly maent yn fy annog i. Mae wedi bod o gymorth er mwyn caniatáu i mi gyfathrebu â chleifion yn eu hiaith eu hunain, gyda grwpiau cleifion penodol. Mae'r cwrs dwys wedi bod o gymorth mawr o ran gwella fy hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gan na fyddwn yn ei ddefnyddio o gwbl gynt*" Adborth dysgwr ar gwrs dwys wythnosol, Cymraeg Gwaith

**Adborth gan y sawl a aeth i Nant Gwrtheyrn**
*"Diolch yn fawr iawn am y cyfle i fynd, roedd yn wych a chefais amser ardderchog. Yn hamddenol iawn ond hefyd yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn, rydw i wedi dysgu llawer ac wedi gwella fy hyder yn fawr"*
*"Cwrs gwirioneddol wych yr ydw i wedi bod yn ei argymell i gydweithwyr. Mwynheais gymysgedd o ddysgu yn y dosbarth a chael mynd allan i ddefnyddio'r Gymraeg o gwmpas Nefyn"*

**Crynodeb**
Ers bod yn rhan o fenter Cymraeg Gwaith ym mis Ebrill 2018, mae 9.4 y cant o'r gweithlu wedi cofrestru, cwblhau a derbyn hyfforddiant y Gymraeg boed ar-lein, fel cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn, neu gwrs dwys (tair awr yr wythnos am gyfnod o 87 awr neu fwy). BIPBC yw'r bwrdd iechyd cyntaf i fod yn rhan o'r cynllun gyda Cymraeg Gwaith yng Nghymru, ac yn dilyn llwyddiant y cynllun, rydym yn debygol o fod yn rhan o'r cynllun unwaith eto yn 2020-21.
Ers 2017, mae 1,223 o aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant gan diwtor BIPBC mewn adrannau amrywiol e.e.

- Myfyrwyr Ôl-raddedig ac Israddedig
- Staff meddygol a gweinyddol y rheng flaen

- Gofal yr Henoed
- Staff plant a phaediatreg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion
- Aelodau Bwrdd BIPBC gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.

## Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn

Ar Fawrth 4ydd 2020, cynhaliwyd Seremoni Dysgwr y Flwyddyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y tro cyntaf. Dechreuwyd ar y daith yn yr yr hydref drwy ei lansio yn ystod Wythnos y Gymraeg, gyda'r nod o gydnabod cyfraniad eithriadol i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a brwdfrydedd i hyrwyddo diwylliant Cymreig. O'r pwynt hwn, ac o gynlluniau i gynnal cystadleuaeth a seremoni ar raddfa fechan, bu'r datblygiadau fel caseg eira. Derbyniwyd dros 40 enwebiad, am y wobr, a cafodd y beirniaid annibynnol (Nia Parry S4C, Teresa Owen, Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Medwyn Hughes Aelod Annibynnol o'r Bwrdd) gryn waith i greu rhestr fer o 6. Yn dilyn hyn, derbynasom nawdd hael dros ben fel gwobrau, heb unrhyw gost i'r Bwrdd Iechyd, sef:

- Wythnos yn Nant Gwrtheyrn, gan Nant Gwrtheyrn
- Dau gwrs penwythnos, un gan Goleg Cambria a'r llall gan Brifysgol Bangor
- Tocynnau llyfrau, 5 x £20 gan Gyngor Llyfrau Cymru
- Tlws i'r enillydd, rhoddedig gan Lowri Gwyn, Lingo
- Lluniaeth, rhodd gan Asda.




Cyn y seremoni wobrwyo, gwnaed clipiau fideo o'r chwech a ddaeth i'r brig i'w dangos ar noson y seremoni a rhoddwyd sylw i'r chwech yn unigol hefyd ar Facebook. Mynychodd 90 o bobl y seremoni, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Optig, Parc Busnes Llanelwy, gan gynnwys y Cadeirydd, Mark Polin, Teresa Owen, y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a Medwyn Hughes, Cyfarwyddwr Annibynnol, a oedd hefyd yn beirniadu'r gystadleuaeth, yn ogystal ag aelodau o'r tîm Cymraeg, a nifer o'r dysgwyr a'u ffrindiau a'u teuluoedd.




*Mark Polin, Cadeirydd, yn annerch y gynulleidfa a Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus.*

Gwahoddwyd sefydliadau hefyd i fynychu gyda stondinau. Hefyd yn bresennol roedd Elin Fflur o'r rhaglen S4C 'Heno' a chyfwelodd â sawl un o'r cystadleuwyr a chafwyd cryn sylw i'r digwyddiad ar y rhaglen. Arweinwyd y noson gan y trydydd beirniad sef Nia Parry, cyflwynydd teledu a thiwtor Cymraeg, a chyhoeddwyd mai Blair Wallace oedd yr enillydd. Mae

Blair yn wreiddiol o'r Alban, ac yn gweithio fel Meddyg Ail Flwyddyn yn Ysbyty Gwynedd. Mae wedi bod yn dysgu Cymraeg ers dwy flynedd, gan ddechrau dysgu hyd yn oed cyn symud i Gymru. Michelle Matthews, sy'n gweithio fel Gweinyddydd yn yr Adran Radioleg yn Ysbyty Glan Clwyd ddaeth yn ail, gyda David Hostler sy'n gweithio fel therapydd iaith a lleferydd cymunedol ar draws ardaloedd y gorllewin a chanol gogledd Cymru yn dod yn drydydd. Trefnwyd i ganlyniad y gystadleuaeth gael ei gyhoeddi ar raglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru, gyda Blair hefyd yn cael ei gyfweld ar gyfer y rhaglen. Mae'r tri a ddaeth i'r brig wedi manteisio ar wersi dwys, ac mae'r chwech a ddaeth i'r brig wedi bod i Nant Gwrtheyrn fel rhan o'r Cynllun Cymraeg Gwaith.

Gobeithiwn bydd y gystadleuaeth hon yn gadael gwaddol o frwdfrydedd dros ddysgu Cymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd ac efelychu esiamplau da y rhai a ddaeth i'r brig.



*Blair Wallace yn derbybn ei dlws gan Lowri Gwyn, Lingo Cyf a Mared Grug o Nant Gwrtheyrn.*




*Nia Parry gydag Elin Fflur*


## Gwasanaethau Gofal Cychwynnol

Ar 30 Mai 2019, daeth Rheoliadau newydd i rym gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gontractwyr Gofal Cychwynnol gyflawni chwe dyletswydd newydd mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae hyn wedi caniatáu i Dîm y Gymraeg barhau i fod yn rhagweithiol o ran helpu contractwyr i gyflawni'r dyletswyddau hyn, yn ogystal â datblygu ymhellach y darpariaethau Cymraeg a dwyieithog y gallant eu cynnig a'u darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.
Er mwyn canfod gwaelodlin o ran yr hyn yr oedd contractwyr yn ei gynnig ar hyn o bryd, cafodd holiadur ei ddosbarthu yn ystod haf 2019 i holl gontractwyr gofal cychwynnol BIPBC yn gofyn iddynt roi manylion am eu darpariaeth bresennol o ran y Gymraeg a'u darpariaeth ddwyieithog.

Bu'r ymateb gan feddygon teulu yn dda iawn, daeth llai o ymatebion gan ddeintyddion ac optegwyr ac un ymateb gan un fferyllfa. Yn ddaearyddol, cafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion eu derbyn gan ardal y gorllewin, gyda'r dwyrain yn dod yn ail ac roedd llai gan ardal y canol. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau'n gymysg iawn gyda rhai ohonynt yn darparu mwy o wasanaethau Cymraeg/dwyieithog nag eraill. Mae rhai o'r pethau cadarnhaol yn cynnwys y ffaith bod gan bron i dri chwarter o feddygon teulu beiriannau hunanwasanaeth a dim ond 3 y cant o feddygon teulu a oedd ag arwyddion uniaith Saesneg. Roedd gan hanner yr optegwyr a atebodd yr arolwg wefannau dwyieithog a dim ond un nododd fod ganddynt arwyddion uniaith Saesneg.




Arweiniodd yr ymatebion i'r holiadur at ddatblygu cynllun gweithredu i weithio gyda'r darparwyr, ac i ddatblygu ymhellach pa gymorth a chyngor sydd eu hangen arnynt a beth gall y Bwrdd Iechyd ei gynnig. Cafodd taflen wybodaeth ei rhannu'n ymwneud â pha wasanaethau y gellir eu cynnig ac ym mha ffyrdd y gall Tîm y Gymraeg helpu e.e. mynediad i rywfaint o waith cyfieithu, sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff, adnoddau fel cortynau gwddf a bathodynnau (i ddynodi siaradwr Cymraeg). Arweiniodd hyn at gyflwyno rhai sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff practisau meddygon teulu, gan ddosbarthu nifer o eitemau fel bathodynnau a chortynnau gwddf a chardiau ymadroddion i lawer, yn ogystal â chyfieithu rhai taflenni practis a ffurflenni cofrestru yn ogystal â chynnig rhai gwersi Cymraeg sylfaenol i staff.





Gwnaeth y gwaith hwn gyd-daro â phrosiect arall â Llywodraeth Cymru a Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn gweithio gydag un clwstwr meddyg teulu yn yr ardal. Prosiect peilot oedd hwn (ochr yn ochr ag un yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda) yn gweithio gyda'r swyddog Cymraeg Busnes, swyddog y Gymraeg BIPBC a phractisau meddygon teulu yn y clwstwr. Cafodd clwstwr De Sir y Fflint ei ddewis a chafodd gwaith ei wneud gyda saith practis gwahanol yn y clwstwr.
Roedd rhan gyntaf y prosiect hwn yn cynnwys cyflwyniad byr yn un o'u cyfarfodydd clwstwr misol, yn ogystal â chyflwyno tîm y Gymraeg a'r hyn y gallem ei gynnig. Cysylltwyd â phob un o'r practisau a chafodd cyfarfodydd eu trefnu gyda phob practis ond un (teimlai un practis na allai gymryd rhan oherwydd amgylchiadau annisgwyl).

Roedd gan Cymraeg Busnes ffurflen safonol i fynd trwyddi ym mhob cyfarfod a oedd yn helpu'n ddiweddarach i greu cynllun gweithredu unigol i weithio arno ar ôl y cyfarfod. Fel rhan o hyn, cafodd llawer o adnoddau eu rhoi iddynt fel bathodynnau, arwyddion drws dwyieithog a sticeri, yn ogystal â recordio rhai systemau ffôn dwyieithog ar gyfer y practisau. Hefyd, gwnaethom ddangos iddynt at beth mae ganddynt fynediad trwy ein mewnrwyd, yn ogystal â threfnu i gyfieithu rhywfaint o arwyddion ac ati ar gyfer y practisau. Gwnaeth y prosiect weithio'n dda o ran helpu i


roi rhai newidiadau bach ar waith a fydd yn gwella eu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog.
O ganlyniad i waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda darparwyr gofal cychwynnol, rydym yn gweithio ar hyn o bryd ar ymgyrch Gofal Cychwynnol i arwain a chynorthwyo'r contractwyr ymhellach gyda'r Rheoliadau newydd.

# Y Gwasanaeth Cyfieithu


Mae'r duedd ar i fyny yn y galw wedi parhau eto'r flwyddyn adrodd hon fel y dangosir yn y graff isod. Yn ystod y cyfnod yn arwain at ddiwrnod gosod y safonau, cofnodwyd cynnydd o 41.4 y cant yn y galw am gyfieithu yn ystod 2018-19. Parhaodd y duedd hon yn ystod 2019-2020 gan fod staff yn fwy ymwybodol o'u rhwymedigaethau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.




Er mwyn rheoli'r galw cynyddol, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr TG yn y Bwrdd Iechyd i ddatblygu datrysiad pwrpasol i dderbyn ceisiadau cyfieithu a'u rheoli. Lansiwyd ein porth cyfieithu newydd ym mis Awst. Ar ôl lansio'r porth o'r sgrin gartref, mae staff yn cael eu cyfeirio at y sgrin llwytho gwaith ble mae eu manylion yn cael ei lwytho'n awtomatig.




O'r pwynt hwn, gofynnir i staff lwytho eu dogfen a dewis dyddiad i'r gwaith gael ei ddychwelyd. Mae'r system yn syml ac yn hawdd ei defnyddio, ac mae adborth gan ddefnyddwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda'r rhan fwyaf yn nodi fod y porth yn gyflymach ac yn symlach na'r system flaenorol ar sail e-bost. Mae'r system hefyd yn gallu rheoli'r ceisiadau, creu rhaglenni gwaith ar gyfer bob cyfieithydd a chreu adroddiadau IRIS er mwyn dadansoddi defnydd a data yn ôl adran.




Rydym wedi parhau i gydweithio gyda'n rhwydwaith o bartneriaid o sefydliadau sector cyhoeddus sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu dysgu, gan ddynodi anghenion hyfforddiant a mynd i'r afael â materion fel recriwtio. Fel grŵp, rydym wedi cydweithio gyda darparwyr addysg i drafod anghenion hyfforddiant a chreu cronfa ddata o systemau ac offer.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, rydym wedi buddsoddi mewn system cyfieithu ar y pryd er mwyn cefnogi adrannau gyda chyfieithu ar y pryd mewn gwahanol fforymau a chyfarfodydd. Rydym wedi bod yn bresennol yn rheolaidd yn y Fforwm Ymarferwyr Ymgysylltu sy'n cael ei hwyluso gan Dîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd i gefnogi gyda chyfieithu fel y gall cyfarfodydd gael eu cynnal drwy'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn y galw am gyfieithu ar y pryd yn ystod cyfweliadau, gydag ymgeiswyr yn manteisio ar y gofyniad yn Safonau'r Gymraeg i gynnig cyfweliadau yn Gymraeg.

# Datblygiadau'r Gwasanaeth a Phrif Gyflawniadau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei wasanaethau hyd yn oed ymhellach eleni gan fod nifer o ddatblygiadau a gweithgareddau wedi cael eu rhoi ar waith ar draws y sefydliad. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg byr o rai o'r mentrau mwyaf arloesol yr ydym wedi'u gweld ar draws gogledd Cymru.

## Wythnos y Gymraeg BIPBC 2019

14-18 Hydref 2019

Yn dilyn llwyddiant Wythnos y Gymraeg cyntaf BIPBC ym mis Chwefror/Mawrth 2018, cynhaliwyd ail wythnos gyfan i ddathlu dwyieithrwydd yn y sector gofal iechyd ym mis Hydref 2019.

Cynhaliwyd digwyddiadau gwahanol mewn nifer o leoliadau ar draws Gogledd Cymru, yn benodol er mwyn hybu defnydd y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd a thu hwnt.

Yn dilyn gwaith cydweithredol rhwng Tîm y Gymraeg BIPBC a Gwasanaeth Gofal yr Henoed y Bwrdd Iechyd, perfformiodd ddisgyblion ysgolion cynradd o Ysgol Gymraeg Gwenffrwd ac Ysgol Plas Coch ddetholiad o ganeuon Cymraeg poblogaidd ar gyfer cleifion hŷn yn Ysbyty Cymuned Treffynnon ac Ysbyty Maelor Wrecsam, yn ôl eu trefn.

Cafodd y ddau ddigwyddiad groeso mawr ac felly cynlluniwyd i gynnal digwyddiad tebyg ar gyfer cleifion hŷn yn Ysbyty Gwynedd yn ystod cyfnod y Nadolig.



Cafodd cleifion iau’r Bwrdd Iechyd sylw hefyd yn ystod Wythnos y Gymraeg, wrth i Fenter Iaith Fflint a Wrecsam ddod â Magi Ann - cymeriad plant adnabyddus - i ymweld ag Uned y Plant yn Ysbyty Maelor Wrecsam.



Dathlwyd diwrnod Shwmae Su'mae ar 15 Hydref, wrth i aelodau'r cyhoedd a staff y Bwrdd Iechyd ymweld â stondinau Wythnos y Gymraeg, Tîm y Gymraeg yn ein prif ysbytai.

Ar ôl cael gwybodaeth am yr ystod o gyrsiau sy'n cael eu darparu gan Diwtor y Gymraeg BIPBC, cofrestrodd nifer o weithwyr y Bwrdd Iechyd i fynychu gwersi.




Ar yr un thema, cynhaliwyd digwyddiadau 'Cinio Clebran' yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam: darparodd y digwyddiadau anffurfiol hyn gyfleoedd i staff y Bwrdd Iechyd sydd eisoes yn dysgu Cymraeg ymarfer eu sgiliau iaith dros ginio.



Gweithiodd Tîm y Gymraeg BIPBC hefyd gyda Cymraeg i Blant i ddarparu stondin wybodaeth yn ystod clinig cyn-geni yn Ysbyty Gwynedd ar 16 Hydref: roedd hyn yn caniatáu i ddarpar rieni a staff y Bwrdd Iechyd ddysgu mwy am fanteision defnyddio'r Gymraeg gyda babanod a phlant ifanc.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau uchod, a drefnwyd yn bennaf ar gyfer staff a / neu gleifion ar safleoedd BIPBC, cynhaliwyd cyfres o seminarau ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd a myfyrwyr addysg bellach rhwng 14 a 18 Hydref, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd dwyieithrwydd fel sgil i bobl ifanc a allai fod yn ystyried gyrfa ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol.

Er bod cannoedd o ddisgyblion blwyddyn 9 a blwyddyn 10 wedi mynychu digwyddiadau yn Ysgol Dyffryn Conwy (yn Llanrwst), Ysgol Maes Garmon (yn yr Wyddgrug) ac Ysgol Dyffryn Ogwen (ym Methesda), cynhaliwyd sesiwn debyg hefyd ar gyfer myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar Safle Coleg Iâl, Coleg Cambria yn Wrecsam.

Ar ôl sgwrs gychwynnol am 'Bwysigrwydd gwasanaethau gofal iechyd Cymraeg' gan aelod o Dîm y Gymraeg BIPBC, roedd pob seminar hefyd yn cynnwys cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o Ofal Cymdeithasol Cymru a Choleg Cymraeg Cenedlaethol, a siaradodd Sophie Burgess (sy'n nyrs yn Ysbyty Gwynedd) am ei phrofiadau personol hi o weithio'n ddwyieithog ar Ward Tegid.

Roedd gan Gyrfa Cymru hefyd stondinau mewn rhai o'r seminarau, fel y gallai'r disgyblion / myfyrwyr gael cyngor (anffurfiol a phwrpasol) pellach, ar ôl y cyflwyniadau uchod.



Cydweithiodd Tîm y Gymraeg BIPBC hefyd gyda BBC Radio Cymru, Radio Ysbyty Gwynedd a Radio Glan Clwyd yn ystod wythnos lwyddiannus, sydd, heb os, wedi codi proffil darpariaeth gwasanaeth Cymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

Felly, y gobaith yw y gellir trefnu dathliad tebyg o'r Gymraeg yn ystod 2020-21.

## Cynllun Dewis Iaith

Mae Cynllun Dewis Iaith llwyddiannus y Bwrdd Iechyd yn hwyluso darpariaeth egwyddor y 'Cynnig rhagweithiol' (gweler yr adran *Mwy na Geiriau…*) ar ein wardiau.

Mae magnetau oren - wedi'u haddurno â'r logo adnabyddus 'Cymraeg: iaith gwaith' yn cael eu rhoi ar fyrddau gwyn uwchben / wrth ochr gwelyau ac ar hysbysfwrdd staff, er mwyn dynodi cleifion a gweithwyr sy'n siarad Cymraeg (a'u paru gyda'i gilydd).

Ar ôl cael dechrau'r peilot ar wardiau penodol yn Ysbyty Gwynedd yn gynnar yn 2017, mae'r cynllun yn awr wedi'i ymestyn yn fawr i gynnwys nifer o ysbytai eraill ar draws Gogledd Cymru.

Fe'i cyflwynwyd ar y 22 ward yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mehefin 2019 ac mae tystiolaeth (a gesglir drwy ffurflenni archwilio misol) yn awgrymu bod gweithrediad cychwynnol y cynllun yn yr ysbyty wedi bod yn llwyddiannus, gyda nifer o gleifion yn penderfynu manteisio ar y cynllun.

**Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r awdit misol a wneir ar sawl ward/uned/adran yn YGC o fis Mai 2019 – Chwefror 2020**

| | Ward / Uned | Nifer o gofnodion misol a ddarparwyd | Cyfanswm y nifer o gleifion ar y ward yn ystod yr cyfnod cofnodi | Nifer o gleifion sy'n siarad Cymraeg | Nifer o gleifion sy'n siarad Cymraeg sydd wedi dewis cymryd rhan yn y Cynllun Dewis Iaith | Canran o gleifion Cymraeg a ddewisodd gymryd rhan yn y Cynlllun Dewis Iaith | Nifer o staff oedd yn siarad Cymraeg ar y ward (Ystod) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ward Enfys (Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru)** | 2 | *36+ | 22 | 19 | 86.36% | 5 (Hyd.) – 11 (Medi) |
| 2 | **Ward 19 (Gofal yr Henoed)** | 5 | 119 | 17 | 17 | 100.00% | 2 (Hyd. a Rhag.) – 5 (Ion.) |
| 3 | **Adran Achosion Brys (ED)** | 1 | 52 | 11 | 11 | 100.00% | 7 (Hyd.) |
| 4 | **Uned Asesiad Llawfeddygol (SAU)** | 3 | 86 | 10 | 9 | 90.00% | 2 (Rhag.) – 3 (Hyd.) |
| 5 | **Ward 8** | 1 | 25 | 8 | 8 | 100.00% | 1 (Medi) |
| 6 | **Ward 12** | 2 | 48 | 4 | 4 | 100.00% | 2 (Rhg.) – 5 (Tach.) |
| 7 | **Ward 3 (Fasgwlaidd)** | 3 | 36 | 4 | 2 | 50.00% | 0 (Meh. & Gorff.) – 2 (Mai) |
| 8 | **Clust, Trwyn a Chleifion Allanol** | 1 | 17 | 3 | 3 | 100.00% | 2 (Medi) |
| 9 | **Ward 9** | 1 | 25 | 2 | 2 | 100.00% | 4 (Hyd.) |
| 10 | **Paediatreg** | 1 | 20 | 2 | 2 | 100.00% | 4 (Tach.) |
| 11 | **Cleifion Allanol (Coridor E)** | 1 | 14 | 2 | 2 | 100.00% | 1 (Medi) |
| 12 | **Cyrraedd ar gyfer Diwrnod Llawfeddygaeth (DOSA)** | 3 | 77 | 2 | 1 | 50.00% | 0 (Tach.) – 2 (Hyd.) |
| 13 | **Uned Feddygol Lem (ACU)** | 1 | 24 | 2 | 0 | 0.00% | 2 (Hyd.) |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Ward 18** | 1 | 7 | 1 | 1 | 100.00% | 5 (Hyd.) |
| 15 | **Ward 19a** | 1 | 13 | 1 | 1 | 100.00% | 1 (Medi) |
| 16 | **Cleifion Allanol (Adeilad Ivor Lewis)** | 1 | 12 | 1 | 1 | 100.00% | 3 (Medi) |
| 17 | **Cleifion Allanol Genol-wynebol (MaxFax)** | 1 | 7 | 1 | 1 | 100.00% | 2 (Medi) |
| 18 | **Gofal Brys yr un Diwrnod (SDEC)** | 1 | 10 | 1 | 0 | 0.00% | 2 (Hyd) |
| 19 | **Cleifion Allanol Dermatoleg** | 1 | 14 | 0 | - | - | 0 (Medi) |
| 20 | **Uned Gofal Dwys (ICU)** | 1 | 10 | 0 | - | - | 3 (Hyd.) |
| 21 | **Uned Ddydd *Gastroenteroleg*** | 1 | 3 | 0 | - | - | 2 (Hyd.) |
| | **Cyfanswm:** | **33** | **655+** | **94** | **84** | **89.36%** | |




Mae data o Ward Enfys (sydd yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd), yn dangos bod 14 claf wedi dewis cymryd rhan yn y cynllun yn ystod mis Medi 2019, er enghraifft, tra bod 11 unigolyn arall hefyd wedi penderfynu defnyddio'r magnetau pan oeddent dan ofal yr Adran Achosion Brys y mis canlynol.

Er mwyn hwyluso darpariaeth y Cynllun Dewis Iaith ymhellach yn Ysbyty Glan Clwyd, gweithiodd Tîm y Gymraeg BIPBC â Thîm Gwybodeg y Bwrdd Iechyd i sicrhau y gellir dangos fersiwn digidol o'r logo 'Cymraeg' wrth ochr enwau cleifion Cymraeg ar fyrddau gwyn electronig (sydd yn ddiweddar wedi cymryd lle'r byrddau magnetig traddodiadol wrth ochr gwelyau ar nifer o wardiau yn yr ysbyty).

Mae'r byrddau gwyn electronig yn sgriniau teledu mawr (55 modfedd), sy'n caniatáu i staff gael mynediad at wybodaeth sylfaenol am y claf mewn modd cyflym a rhwydd ac mae'n cynnwys manylion am ddewis ieithyddol (y gellir ei gael yn uniongyrchol drwy'r System Gweinyddu Cleifion) sy'n ei gwneud yn haws i staff ddynodi pa glaf y mae'n well ganddo gyfathrebu drwy'r Gymraeg.

Mae'r sgrinlun isod yn dangos sut mae manylion sylfaenol claf (gan gynnwys gwybodaeth am ddewis ieithyddol) yn cael ei ddangos ar y byrddau gwyn electronig.

Home | West | Ysbyty Glan Clwyd | Ward 1

Site Status - **Status 3 (2019-04-25 08:05)**

Column visibility | Clear Sort

| CRN | Name | Gender | Adm Date | LOS (D) | Cons | Spec |
|---|---|---|---|---|---|---|
| B111111 | Bloggs, Fred (47yrs) | Male | 05/07/2018 | 294 | Dr GM Consultant | General Medicine |
| B2222222 | Flintstone, Wilma (57yrs) | Female | 31/07/2018 | 268 | Dr GM Consultant | General Medicine |
| B3333333 | Stone, John (17yrs) | Male | 02/06/2018 | 327 | Dr GM Consultant | General Medicine |
| B44444 | Bloggs, No Name (1yrs) | Male | 02/08/2018 | 266 | Dr GM Consultant | General Medicine |
| B2345643 | Stark, Tony (87yrs) | Male | 31/08/2018 | 237 | Dr David Consultant | Respiratory Medicine |
| B6784327 | Bloggs, Joan (19yrs) | Female | 12/08/2018 | 256 | Dr GM Consultant | General Medicine |
| B5635999 | Xavier, Charles (87yrs) | Male | 09/08/2018 | 259 | Dr GM Consultant | General Medicine |
| B435234094 | Aireheart, Amelia (106yrs) | Female | 31/08/2018 | 237 | Dr GM Consultant | General Medicine |
| B234543 | Glenn, John (64yrs) | Male | 05/08/2018 | 263 | Dr GM Consultant | General Medicine |

Y tu hwnt i ddechrau defnyddio’r Cynllun Dewis Iaith yn Ysbyty Glan Clwyd, dechreuwyd defnyddio’r magnetau oren hefyd mewn nifer o safleoedd eraill BIPBC yn ystod 2019 ac yn dilyn eu cyflwyno yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno, Ysbyty Abergele ac Ysbyty Cymuned Treffynnon, mae'r cynllun bellach yn weithredol ar wardiau ym mhob un o'r ysbytai yn Ardal y Canol y Bwrdd Iechyd.



Ymhellach i’r Dwyrain, cyflwynwyd y magnetau hefyd yn Ysbyty Cymuned y Waun (mis Ebrill 2019), cyn y cynhaliwyd gwaith yn dilyn hynny i ymgysylltu â metronau ac arweinwyr nyrsio yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, er mwyn paratoi at ehangu gweithrediad y Cynllun Dewis Iaith ar brif safle / safle llym y Bwrdd Iechyd yn Ardal y Dwyrain.

Yn dilyn hyn, ymddangosodd y magnetau oren ar fwy o wardiau yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn gynnar yn 2020.

Mae poblogrwydd a llwyddiant parhaus y cynllun yn cael ei adlewyrchu gan y ffaith bod adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn yn rheolaidd gan ddefnyddwyr gwasanaethu, eu teuluoedd a gweithwyr y Bwrdd Iechyd fel ei gilydd.

## Prosiect Iechyd Meddwl

Cafodd prosiect yn canolbwyntio ar gryfhau darpariaeth Gymraeg yn y sector iechyd meddwl, fel un o'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ei gynnal yn ystod 2019. Nod y prosiect oedd cynyddu'r cyfleoedd y mae defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd meddwl yn eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg, i nodi unrhyw ddiffygion neu rwystrau a mynd i'r afael â nhw o ran cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Gymraeg berthnasol a chynnig profiad mwy cadarnhaol iddynt o ganlyniad.

Gan fod iechyd meddwl wedi cael ei nodi fel un o'r pedwar grŵp blaenoriaeth yn fframwaith Mwy na Geiriau, mae'n berthnasol ac yn amserol canolbwyntio ar gyflawni a diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl, gan fod ganddynt angen penodol i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, a gallai eu gofal neu eu triniaeth ddioddef os nad ydynt yn cael eu cynnig yn eu hiaith gyntaf. Caiff iaith yn y cyd-destun hwn ei weld fel angen iaith, yn hytrach na dewis iaith.

Roedd y prosiect, a gafodd ei gwblhau yn Uned Hergest yn Ysbyty Gwynedd, yn canolbwyntio ar ymwybydiaeth o'r Gymraeg ymysg aelodau o staff, cwmpasu sgiliau Cymraeg aelodau o staff, rhoi'r Cynllun Dewis Iaith ar waith i ddynodi cleifion Cymraeg eu hiaith, canfod lle bo diffyg sgiliau Cymraeg, a thargedu'r meysydd hyn trwy ddarparu hyfforddiant y Gymraeg er mwyn atgyfnerthu gallu aelodau o staff i gynnig gofal yn yr iaith briodol. Deilliant allweddol arall oedd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth er mwyn dysgu am eu profiadau o dderbyn gofal yn y Gymraeg, eu disgwyliadau o ofal trwy gyfrwng y Gymraeg gyferbyn â'r realiti er mwyn llywio darpariaeth well trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd holiadur byr ei ddosbarthu i staff iechyd meddwl sy'n gweithio yn Uned Hergest, yn dilyn y sesiynau ymwybyddiaeth iaith er mwyn gwerthuso eu heffeithiolrwydd a monitro p'un a fyddent yn arwain at newid ymddygiadol cadarnhaol o ran diwallu anghenion ieithyddol cleifion, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â'r Gymraeg.

Roedd un o'r cwestiynau'n canolbwyntio ar dri pheth yr oedd yr unigolion wedi'u dysgu yn dilyn y sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Roedd pob un o'r ymatebion yn hynod bositif, gyda'r sawl a fynychodd yn pwysleisio eu bod erbyn hyn yn gwerthfawrogi ac yn deall yn llwyr bwysigrwydd y Gymraeg yn y sector iechyd, er nad oedd nifer sylweddol o'r staff wedi sylweddoli'r canlyniadau a'r goblygiadau a oedd ynghlwm wrth beidio â darparu gwasanaeth Cymraeg ar gleifion, yn ogystal ar y broses o wneud diagnosis, asesu a thrin cleifion Cymraeg eu hiaith.

Agwedd bwysig arall a amlygwyd yn yr adran yn canolbwyntio ar beth roedd yr unigolion wedi'i ddysgu oedd y Cynllun Dewis Iaith, sy'n ffordd lwyddiannus o gyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol, gan y bydd yr holl staff clinigol a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd ynghlwm wrth gyflwyno'r cynnig rhagweithiol a rhoi gofal trwy gyfrwng y Gymraeg i gleifion.

Yn dilyn y sesiwn hyfforddiant, gwnaeth nifer o'r ymatebwyr honni eu bod yn fwy ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt fel aelodau o staff o ran y rhaglen hyfforddiant mewnol, presenoldeb Tiwtor Cymraeg mewnol, a bod y tîm cyfieithu ar gael i gyfieithu pob dogfen ar gyfer y cyhoedd. Nododd nifer sylweddol o'r unigolion

eu bod yn ymwybodol o Ddeddfwriaeth y Gymraeg a Fframwaith Mwy na Geiriau, o ganlyniad i dderbyn y sesiwn hyfforddiant, gan fod y sesiynau'n hwyluso'r broses o roi gwybod i aelodau o staff am ddeddfwriaeth y Gymraeg, pa ofynion cyfreithiol a gweithredoedd sydd eu hangen gan holl staff y Bwrdd Iechyd, ond yn bwysicaf oll, pa gamau ymarferol y gellir eu cymryd i wneud y cynnig rhagweithiol, ac i gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg. Gwnaethant nodi hefyd eu bod yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau cyfathrebu sy'n bodoli wrth ddefnyddio ail iaith claf, ac felly eu bod yn cydnabod ei bod yn flaenoriaeth allweddol ceisio defnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddynt, yn enwedig gyda'r pedwar grŵp sy'n agored i niwed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru; plant a phobl ifanc, pobl pobl hŷn, pobl sydd ag anawsterau dysgu, a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Gwnaeth y prosiect greu gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sy'n elfen hollbwysig o roi gofal sy'n diwallu anghenion yr unigolyn, sy'n canolbwyntio ar gleifion, ac mae'n golygu bod cleifion yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Caiff y wybodaeth a gasglwyd o'r prosiect hwn ei defnyddio i ddatblygu prosiect tebyg ar gyfer yr unedau Iechyd Meddwl yn ardaloedd Canol a Dwyrain y Bwrdd Iechyd.

## Cymraeg i Blant

Ar ôl i'n Swyddog y Gymraeg yn Wrecsam gyfarfod ag un o'r swyddogion arweiniol a swyddog maes newydd yr ardal, gwnaethom drefnu i ymweld â Ward y Plant. Yn ystod yr ymweliad, roeddent yn ddigon caredig i roi'n rhodd ddetholiad o lyfrau plant Cymraeg a dwyieithog i'w cadw yn yr ystafell chwarae ar y ward. Gwnaethom drefnu hefyd i Cymraeg i Blant arddangos baneri a hysbysiadau'n tynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd, gan arddangos eu gwaith ac enghreifftiau o'u grwpiau cymunedol i deuluoedd sydd â phlant bach ar y ward famolaeth ac ardaloedd clinig yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae swyddogion Cymraeg i Blant wedi bod yn ymweld â'r ysbyty hefyd yn ystod clinigau i sgwrsio â darpar famau a theuluoedd am fuddion dwyieithrwydd a rhoi enghreifftiau o'r grwpiau gwahanol y maent yn eu cynnal yn y gymuned.
Gwnaeth *Cymraeg i Blant* gymryd rhan hefyd (fel y soniwyd uchod) yn nau o'n gweithgareddau Wythnos y Gymraeg ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda nhw ac i gyfarfod bob chwarter wrth i ni gynllunio ein prosiectau nesaf ar y cyd.



## Gwaith gydag ysgolion a cholegau

Gan adeiladu ar lwyddiant y gwaith blaenorol, mae Tîm y Gymraeg BIPBC wedi parhau i gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau addysg bellach, er mwyn hybu manteision sgiliau dwyieithog, yn ystod 2019-20.

Digwyddiadau a seminarau ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd/myfyrwyr addysg bellach.

Cynhaliwyd nifer o seminarau mewn lleoliadau ar draws Gogledd Cymru yn ystod Wythnos y Gymraeg flynyddol y Bwrdd Iechyd (ym mis Hydref 2019): er bod oddeutu pedwar cant o ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 yn bresennol mewn digwyddiadau yn Ysgol Dyffryn Conwy (Llanrwst), Ysgol Maes Garmon (Yr Wyddgrug) ac Ysgol Dyffryn Ogwen (Bethesda), cynhaliwyd sesiwn bellach ar gyfer myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar safle Coleg Cambria, Coleg Iâl yn Wrecsam.

Trefnwyd yr holl seminarau hyn ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Gyrfa Cymru a gellir edrych ar fwy o wybodaeth am eu darpariaeth a'u cynnwys yn yr adran sy'n canolbwyntio'n benodol ar Wythnos y Gymraeg BIPBC.

Y tu hwnt i hyn, mae Tîm y Gymraeg hefyd wedi cyfrannu at nifer o ddigwyddiadau gyrfaoedd sydd wedi'u trefnu gan sefydliadau allanol: rhoddodd aelod o'r tîm gyflwyniad "Y Gymraeg: sgil holl bwysig ar gyfer y gweithlu" yn ystod Cynhadledd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Grŵp Llandrillo Menai ddiwedd mis Tachwedd 2019, er enghraifft.

Cynhaliwyd y digwyddiad undydd hwn ym Mhrifysgol Bangor, ac roedd hefyd yn cynnwys ffair gyrfaoedd, ble gwelwyd nifer fawr o fyfyrwyr o Grŵp Llandrillo Menai yn bresennol.

Achubodd nifer a oedd yn bresennol ar y cyfle i drafod eu dyheadau a'u cynlluniau gyrfa gydag aelod o Dîm y Gymraeg BIPBC, ac wedi hynny cawsant gyngor pellach ar y manteision o gael sgiliau dwyieithog (yng nghyd-destun darpariaeth gwasanaeth gofal iechyd).

Yn yr un modd, cyfrannodd Tîm y Gymraeg hefyd at nifer o ddigwyddiadau Gyrfa Cymru yn ystod 2019-20.

Ar ôl cymryd rhan yn seminar "Cymraeg yn y Gweithle" ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 yn Ysgol Uwchradd y Rhyl ym mis Tachwedd 2019, fe gyfrannodd y tîm hefyd at sesiwn debyg yn Ysgol Maelor (yn Llannerch Banna, ger Wrecsam) ac Ysgol Aberconwy.

Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn i gyd mewn ysgolion Saesneg, roeddent yn cynnig cyfle i hybu pwysigrwydd gwasanaethau gofal iechyd Cymraeg yn bennaf i gynulleidfaoedd di-Gymraeg a/ neu ddysgwyr, nad oeddent efallai wedi cael eu hannog yn flaenorol i ystyried manteision dwyieithrwydd.

Roedd aelod o Dîm y Gymraeg hefyd yn bresennol mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gyrfa Cymru, 'Cymraeg yn y Gweithle' ym Mharc Eirias ym Mae Colwyn ar 2 Hydref 2019.

Roedd disgyblion o sawl ysgol uwchradd leol yn bresennol yn y ffair gyrfaoedd, a oedd hefyd yn cynnwys nifer o gyflogwyr blaenllaw eraill o ardal Gogledd Cymru.

Ar yr un diwrnod, mynychodd oddeutu pum deg o fyfyrwyr gofal cymdeithasol o Goleg Menai, Bangor, sesiwn am 'Bwysigrwydd Darpariaeth Gwasanaeth gofal iechyd Cymraeg' yn ystod ymweliad ag Ysbyty Gwynedd.

Ar ôl cyflwyniad rhagarweiniol, siaradodd aelod o staff fferyllfa'r ysbyty am ei ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, cyn i'r myfyrwyr fynd ar daith o amgylch wardiau dethol, lle dysgon nhw fwy am bwysigrwydd egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' (sy'n agwedd ganolog ar fframwaith strategol Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau ...* ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol).

Cyfrannodd aelod o Dîm y Gymraeg hefyd at ddigwyddiad Byd Gwaith yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam ym mis Chwefror 2020.

<u>Webinarau Gyrfa Cymru</u>

Yn ogystal, cymerodd ddau gynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd ran mewn webinar Cymraeg ar gyfer Gyrfa Cymru ym mis Hydref 2019.

Nod y sesiwn hon yn bennaf oedd rhoi gwybodaeth i ddisgyblion blwyddyn 9 am yrfaoedd yn y sector gofal iechyd ac mae fersiwn wedi'i recordio ar gael fel adnodd ar-lein i bob ysgol uwchradd yng Nghymru (drwy YouTube).

<u>Gwaith gydag ysgolion cynradd</u>

Cyfrannodd Tîm y Gymraeg BIPBC hefyd at ddigwyddiad Gyrfa Cymru, 'Cymraeg yn y Gweithle' ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd yn ystod y gwanwyn a haf 2019.

Cynhaliwyd y digwyddiadau rhwydweithio cyflym hyn - a oedd hefyd yn cynnwys nifer o gyflogwyr blaenllaw eraill o Ogledd Ddwyrain Cymru - yn Ysgol y Grango, yn Rhosllannerchrugog (ar 8 Ebrill 2019) ac Ysgol Rhiwabon ( ar 23 Mai a 6 Mehefin) ac fe'u cynlluniwyd i helpu disgyblion blwyddyn 6 i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a'u hyder, wrth ddysgu am y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol weithleoedd.

Wedi'i annog gan gyfres o gwestiynau a drefnwyd ymlaen llaw, darparodd cynrychiolydd Tîm y Gymraeg wybodaeth berthnasol am bwysigrwydd gwasanaethau gofal iechyd Cymraeg a manteision dwyieithrwydd i gannoedd o ddisgyblion o nifer o ysgolion lleol (gan gynnwys Ysgol ID Hooson, Ysgol Maes y Mynydd, Ysgol yr Hafod ac Ysgol Gynradd Gymuned Penycae).

<u>Gwaith gyda Phrifysgolion</u>

Cyfrannodd Tîm Cymraeg BIPBC at ddau fodiwl Prifysgol Bangor ym mis Mawrth 2020: cafodd myfyrwyr ar gyrsiau 'O'r Senedd i'r' Swyddfa' a 'Cymdeithas, Iaith a

Phrotest', gyflwyniad PowerPoint a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaeth gofal iechyd dwyieithog a sut mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo o fewn BIPBC.

I gyd-fynd â'r cyflwyniad gweledol roedd trac sain llawn yn Gymraeg i hwyluso dysgu'r myfyrwyr.

Mewn datblygiad arloesol, bu Tîm y Gymraeg BIPBC hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn ddiweddar i ddarparu hyfforddiant sylfaenol y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr Therapi Galwedigaethol a Ffisiotherapi.

Mynychodd cyfanswm o saith deg o fyfyrwyr dair gwers ac o ganlyniad dysgon nhw ymadroddion a dywediadau Cymraeg syml, gan gynnwys cyfarchion, rhifau, rhannau o'r corff a rhai geiriau eraill y gallant hwy eu gweld o amgylch yr ysbyty.

Yn ddiweddar, cytunodd Tîm y Gymraeg i gefnogi prosiect ARFer Prifysgol Bangor, sy'n edrych ar arferion ieithyddol a'i nod yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd.

Cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda chynrychiolwyr o Ganolfan Bedwyr (Canolfan Gwasanaethau Iaith, Ymchwil a Thechnoleg Cymraeg y Brifysgol) am y posibilrwydd o gyflwyno'r prosiect o fewn Meddygfeydd dethol yn Ynys Môn, cyn y cafodd y fenter arfaethedig ei hatal dros dro oherwydd pandemig parhaus Covid-19.

## Data Dangosyddion Perfformiad

Mae'r gofynion data'n amrywio eleni yn unol â Safonau newydd y Gymraeg. Mae'r data a gynhwysir isod yn unol â Safon 120 Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

## Cynllunio'r Gweithlu

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cwblhawyd Archwiliad Mewnol er mwyn canfod p'un a oedd amgylchedd rheoli cadarn ar waith yn y Bwrdd Iechyd i weithredu ar ofynion y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yr ymagwedd at yr adolygiad hwn oedd canfod a gwerthuso rheolyddion sydd ar waith ac i dynnu sylw at wendidau posibl.

Gwnaeth yr adolygiad ganolbwyntio ar y canlynol:

- Rheoli a gweinyddu swyddi gwag yr ystyrir eu bod yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol;
- Cyfiawnhau swyddi gwag;
- Polisïau ategol a nodiadau arweiniad; a
- Manwl-gywirdeb a chysondeb adrodd.

Cafodd yr adroddiad a dderbyniwyd ei seilio ar y wybodaeth a ddarparwyd, ymatebion yn ystod trafodaethau ac ar ddogfennau a ddarparwyd.

I gefnogi cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog sy'n cael ei thanategu gan bolisïau perthnasol Gweithlu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Strategaeth wedi'i chynllunio i *"ganiatáu cynllunio gweithlu effeithiol a recriwtio staff i sicrhau bod modd cyflawni gwasanaethau dwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â dewis unigolion ac anghenion y boblogaeth yn yr ardal"*.

Mae'r Strategaeth yn nodi mai nod y strategaeth sgiliau yw:
"…*sicrhau bod gan BIPBC y nifer ddigonol o staff sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol, i ddarparu gwasanaeth gofal iechyd ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, yn unol ag anghenion y gymuned leol."*

Fel rhan o'r gofynion, mae'r Strategaeth yn pennu rhai swyddi yn y Bwrdd Iechyd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Ystyrir y swyddi canlynol yn y fath fodd: Staff Switsfwrdd, Staff Canolfannau Trefnu Apwyntiadau / Canolfannau Galwadau a Derbynyddion.

Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio'n unswydd ar reoli a gweinyddu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a chydymffurfiaeth ag Adran 5 y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, Polisi WP1 BIPBC ar gyfer Arferion Dethol Recriwtio'n Ddiogel, a Chanllawiau Arferion Dethol Recriwtio'n Ddiogel BIPBC WP1a.

Er bod gan y Bwrdd Iechyd bolisïau cadarn, dogfen arweiniad ac adrodd ar waith i ategu cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nodwyd rhai problemau a chyfyngiadau, gan gynnwys y ffaith nad oedd gofyion y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog wedi'u nodi'n benodol yn nogfennaeth y polisi, a bod diffyg ymwybyddiaeth i ryw raddau o' Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Cafodd tri argymhelliad eu cynnwys yn yr adroddiad

- Dylai rheolwyr adolygu'r arfer presennol a rhoi rheolyddion ar waith er mwyn sicrhau bod gofynion swyddi hanfodol yn cael eu bodloni neu bod hyfforddiant yn cael ei gwblhau er mwyn caniatáu i ymgeiswyr llwyddiannus fodloni'r gofynion.
- Dylai rheolwyr adolygu'r arfer presennol gan roi rheolyddion ar waith i sicrhau bod gofynion y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn cael eu bodloni.
- Ystyried p'un a yw'r arfer presennol yn bodloni gofynion y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Yng ngoleuni'r adroddiad hwn, mae'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog wedi cael ei diweddaru a'i hatgyfnerthu ac mae'n aros i gael ei chymeradwyo'n derfynol. Mae tîm y Gweithlu wedi derbyn yr argymhellion ac mae wedi tacluso prosesau er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn.

**Data 2019 / 2020:**

**Roedd 89 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

**Data 2018 / 2019:**

**Roedd 88.5 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

**Data 2017 / 2018:**

**Roedd 83.77 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

- ***Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad:***
  - ***y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu;***
  - ***sydd â sgiliau Cymraeg (fesul lefel sgiliau)***

***Ar draws y sefydliad***

| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | **2017/18** | | **2018/19** | | **2019/20** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % | Cyfansw m | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 7165 | 38.57 | 7954 | 43 | 8031 | 42.4% |
| 1 - Entry/ Mynediad | 2336 | 12.57 | 2366 | 13 | 2443 | 13% |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 1171 | 6.30 | 1185 | 6 | 1227 | 6.5% |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 1203 | 6.48 | 1243 | 6.5 | 1254 | 6.6% |
| 4 - Higher / Uwch | 1546 | 8.32 | 1502 | 8 | 1525 | 8.1% |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 2141 | 11.53 | 2217 | 12 | 2338 | 12.4% |
| Cyfanswm | 15,562 | 83.77% | 16,467 | 88.5% | 16,818 | 89% |
| Cyfanswm y staff | 18,577 | | 18,624 | | 18,922 | |

- ***Nifer a chanran y gweithwyr sy'n gweithio yn y gwasanaethau grŵp blaenoriaeth canlynol, y mae eu sgiliau Cymraeg wedi cael eu hasesu, fesul lefel sgil:***

  - Paediatreg
  - Nyrsio ysgol

- Ymwelwyr iechyd
- Meddygaeth gofal yr henoed
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Anableddau Dysgu
- Gwasanaethau iechyd meddwl:
  - Plant a Phobl Ifanc
  - Oedolion
  - Pobl Hŷn

| **Paediatreg** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 230 | 40 | 127 | 33.2% |
| 1 - Entry/ Mynediad | 69 | 12 | 52 | 13.6% |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 33 | 6 | 22 | 5.7% |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 36 | 6 | 24 | 6.3% |
| 4 - Higher / Uwch | 32 | 6 | 19 | 5% |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 85 | 15 | 66 | 17.2 |
| Cyfanswm | 485 | 85% | 310 | 81% |
| Cyfanswm y staff | 571 | | 383 | |

| **Nyrsio Ysgol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 54 | 41 | 58 | 45 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 22 | 17 | 17 | 13.2 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 2 | 2 | 1 | 0.8 |
| 3 – Intermediate / Canolradd | 4 | 3 | 3 | 2.3 |
| 4 - Higher / Uwch | 17 | 13 | 18 | 13.9 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 26 | 20 | 26 | 20.1 |
| Cyfanswm | 123 | 92.5% | 123 | 95.3% |
| Cyfanswm y staff | 133 | | 129 | |

| **Ymwelwyr Iechyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 105 | 34 | 123 | 38.4 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 47 | 15 | 53 | 16.6 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 20 | 6 | 17 | 5.3 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 24 | 8 | 26 | 8.1 |
| 4 - Higher / Uwch | 36 | 12 | 34 | 10.6 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 48 | 16 | 52 | 16.3 |
| Cyfanswm | 280 | 91% | 305 | 95.3 |
| Cyfanswm y staff | 308 | | 320 | |

| Meddygaeth Gofal yr Henoed | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 74 | 30.5 | 67 | 28.1 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 23 | 9 | 18 | 7.6 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 19 | 8 | 20 | 8.4 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 14 | 6 | 18 | 7.6 |
| 4 - Higher / Uwch | 44 | 18 | 47 | 19.7 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 31 | 13 | 26 | 10.9 |
| Cyfanswm | 205 | 84.5% | 196 | 82.3 |
| Cyfanswm y staff | 243 | | 238 | |

| Therapi Iaith a Lleferydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 66 | 40 | 69 | 40.6 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 15 | 9 | 14 | 8.3 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 7 | 4 | 9 | 5.3 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 19 | 11 | 18 | 10.6 |
| 4 - Higher / Uwch | 22 | 13 | 23 | 13.6 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 36 | 22 | 35 | 20.6 |
| Cyfanswm | 165 | 99% | 168 | 99% |
| Cyfanswm y staff | 166 | | 170 | |

| Anableddau Dysgu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 126 | 33.5 | 119 | 32.4 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 66 | 17.5 | 64 | 17.4 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 39 | 10 | 41 | 11.2 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 36 | 10 | 35 | 9.5 |
| 4 - Higher / Uwch | 47 | 13 | 47 | 12.8 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 54 | 14 | 51 | 13.9 |
| Cyfanswm | 368 | 98% | 357 | 97.2 |
| Cyfanswm Nifer y staff | 376 | | 367 | |

| Gwasanaethau iechyd Meddwl - cyffredinol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 784 | 40 | 777 | 39.4 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 307 | 16 | 311 | 15.8 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 153 | 8 | 161 | 8.2 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 190 | 10 | 182 | 9.2 |
| 4 - Higher / Uwch | 156 | 8 | 170 | 8.5 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 234 | 12 | 236 | 11.9 |
| Cyfanswm | 1824 | 94% | 1837 | 93% |
| Cyfanswm y staff | 1946 | | 1974 | |

| Gwasanaethau Iechyd Meddwl - CAMHS | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 117 | 51 | 115 | 50.4 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 30 | 13 | 38 | 16.7 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 16 | 7 | 15 | 6.6 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 14 | 6 | 15 | 6.6 |
| 4 - Higher / Uwch | 10 | 4 | 11 | 4.8 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 15 | 7 | 15 | 6.6 |
| Cyfanswm | 202 | 88% | 209 | 91.7 |
| Cyfanswm y staff | 230 | | 228 | |

| Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Cymuned | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 158 | 38 | 144 | 35.8 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 79 | 19 | 68 | 16.9 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 32 | 8 | 38 | 9.5 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 45 | 11 | 48 | 11.9 |
| 4 - Higher / Uwch | 22 | 5 | 23 | 5.7 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 55 | 13 | 57 | 14.2 |
| Cyfanswm | 391 | 94% | 378 | 94% |
| Cyfanswm y staff | 418 | | 402 | |

| Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Oedolion | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 233 | 43 | 260 | 42.6 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 66 | 12 | 90 | 14.8 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 47 | 9 | 57 | 9.3 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 57 | 10 | 55 | 9 |
| 4 - Higher / Uwch | 33 | 6 | 40 | 6.5 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 85 | 16 | 84 | 13.8 |
| Cyfanswm | 521 | 96% | 586 | 96% |
| Cyfanswm y staff | 543 | | 610 | |

| Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Henoed | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Nifer y Gweithwyr | 2018/19 | | 2019/20 | |
| Lefel Gallu Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 91 | 40 | 82 | 41 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 46 | 20 | 40 | 20 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 10 | 4 | 7 | 3.5 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 22 | 10 | 19 | 9.5 |
| 4 - Higher / Uwch | 20 | 9 | 20 | 10 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 24 | 11 | 22 | 11 |
| Cyfanswm | 213 | 94% | 190 | 95% |
| Cyfanswm y staff | 226 | | 200 | |

## Hyfforddiant i Wella Sgiliau Cymraeg

Fel yr amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad, rydym wedi gweld cryn gynnydd o ran darpariaeth hyfforddiant Cymraeg yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r data canlynol yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y staff sy'n manteisio ar hyfforddiant, gan adlewyrchu canlyniadau cadarnhaol y rôl arloesol hon yn y sector iechyd.

| **Cyrsiau Cymraeg Gwaith** | |
|---|---|
| | |
| Cyrsiau Ar-lein | 893 |
| Cyrsiau Preswyl yn Nant Gwrtheyrn | 61 |
| Cyrsiau Dwys (tair awr yr wythnos) | 34 |
| **Cyfanswm** | **988** |

| **Cyrsiau BIPBC 2019-20** | |
|---|---|
| | |
| Dechreuwyr - Lefel 0-1 | 72 |
| Sylfaen - Lefel 2 | 73 |
| Canolradd - Lefel 3 | 12 |
| Uwch - Lefel 4 | 6 |
| Cyrsiau Magu Hyder | 6 |
| Cwrs ôl-raddedigion YG | 42 |
| Cwrs israddedigion YG | 60 |
| **Cyfanswm** | **271** |

**Holl niferoedd** : 1259

- ***Niferoedd a chanranau gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol***

***Data 2019 / 2020:***

**Nifer gweithlu'r sefydliad a fanteisiodd ar hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol: 1259**

**Mae'r cyfanswm hwn yn hafal i 6.6 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd**

**Data 2018 / 2019:**

**Nifer gweithlu'r sefydliad a fanteisiodd ar hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol: 837**

**Mae'r cyfanswm hwn yn hafal i 5.1 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd**

## Recriwtio

- ***Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn gofyn am:***

**Data 2019 / 2020:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 200 (6.2 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 3006 (93.7 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i gael eu dysgu - 4 (0.1 y cant cent)**
- **Cyfanswm nifer y swyddi a hysbysebwyd - 3210**

**Data 2018 / 2019:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 59 (2 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 2790 (98 y cant)**
- **Dim angen sgiliau Cymraeg - N/A**

**Data 2017 / 2018:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 53 (1.9 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 2845 (98.3 y cant)**
- **Dim angen sgiliau Cymraeg - N/A**
-

Mae gofynion sgiliau Cymraeg yn parhau i gael eu hasesu fel rhan o brosesau recriwtio'r Bwrdd Iechyd yn unol â'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol wedi cynyddu 6 y cant eleni, yn dilyn ymdrech bellach i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried fel sgil wrth hysbysebu. Hefyd, fel y soniwyd yn flaenorol, cafodd Archwiliad Mewnol ei gynnal yn ystod 2019 gan Gydwasanaethau i ganfod p'un a oes amgylchedd rheoli cadarn ar waith yn y Bwrdd Iechyd i weithredu gofynion y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog sydd wedi cyfrannu at y cynnydd hwn.

Mae'n rhaid nodi'r Gymraeg fel sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer pob swydd a hysbysebir. Ymgymerodd y Bwrdd Iechyd â'r penderfyniad arloesol i sicrhau nad oedd dim un swydd yn cael ei hysbysebu yn nodi nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Mae adran 'Gofynion o ran y Gymraeg' wedi cael ei chynnwys yn y Fanyleb Bersonol, sy'n sicrhau bod sgiliau Cymraeg, boed yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swydd, yn cael eu nodi'n amlwg.

## Cwynion

- ***Nifer y cwynion a gafwyd ynghylch gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg***

O 30 Mai 2019, roedd pob cwyn a dderbyniwyd mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd bum cwyn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg, ac aed i'r afael â hyn yn llawn yn unol â Rheoliadau *Gweithio i Wella*. Cafodd tair cwyn eu symud ymlaen at y cam ymchwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Er bod ymateb wedi'i roi i ddau ymchwiliad cyn achosion coronafeirws, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na fyddai'n rhoi unrhyw bwysau ychwanegol ar y GIG ac felly y byddai'n aros nes gwneud penderfyniadau am ymchwilio i unrhyw gwynion newydd hyd nes bydd yr argyfwng drosodd. Yn yr un modd, arhosodd cyn gweithredu ar ymchwiliadau a oedd eisoes ar agor lle'r oedd angen cael cyswllt â'r Bwrdd Iechyd ac ni fyddai'n gofyn am dystiolaeth o roi'r camau gorfodi ar waith a bennwyd gan ymchwiliadau blaenorol.

## Casgliad a Blaen Weledigaeth ar gyfer 2020 - 2021

Trwy ei gynllunio strategol, mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer y tair blynedd nesaf gyda ffocws allweddol ar ddatblygu'r meysydd gwasanaeth canlynol ymhellach:

- Parhau i gyflwyno Safonau'r Gymraeg ar draws y sefydliad
- Cynllunio'r gweithlu drwy roi'r *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog* ar waith
- Hybu a gweithredu egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru *Mwy na Geiriau*
- Datblygu gwasanaethau gofal cychwynnol dwyieithog a'u cryfhau
- Darparu gwasanaeth cyfieithu cynhwysfawr i'r sefydliad cyfan

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ganolbwynt i'r Bwrdd Iechyd ac mae cysylltiadau eisoes wedi'u rhoi ar waith i ddatblygu prosiect *Cymraeg i Blant* sy'n ategu at strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, sef *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. Byddwn yn gweld datblygiadau pellach gyda phartneriaid wrth i ni gefnogi gweithio integredig ehangach gydag awdurdodau lleol.

Ar ôl canfod yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o'r Gymraeg fel sgil cyflogaeth, ac ar ôl gweld llwyddiant ein hymweliadau ag ysgolion a cholegau lleol, bydd y Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i barhau i ymgysylltu ag ysgolion uwchradd Cymraeg a Saesneg ond efallai na fydd hyn yn bosibl i'r un graddau ag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd y pandemig.

Mae gwaith wedi parhau gyda'r sector gofal cychwynnol fel y'i dangosir yn yr adroddiad hwn, a chaiff y gwaith hwn ei ddatblygu ymhellach fel rhan o'r Safonau a'r dyletswyddau arfaethedig i gontractwyr yn ogystal ag ymgyrch i hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigir gan Dîm y Gymraeg i helpu'r sector gofal cychwynnol i

ddatblygu eu capasiti i ddarparu gofal iechyd dwyieithog ar gyfer cleifion Cymraeg eu hiaith.

Byddwn hefyd yn ehangu prosiect gyda'n Huwch Adran Iechyd Meddwl i gynnal ymarfer cwmpasu o'n darpariaeth bresennol mewn meysydd eraill yn y Bwrdd Iechyd a thrwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, byddwn yn cydweithio i ganfod meysydd a'r math o gymorth sydd eu hangen. Mae'r camau hyn yn llywio cynlluniau ehangach y Bwrdd Iechyd a byddant yn rhan o raglen waith, monitro a llywodraethu parhaus.

Adroddiad cyntaf y Bwrdd Iechyd ar roi Safonau'r Gymraeg ar waith yw hwn, ac er bod yr adroddiad mewn fformat tebyg i adroddiadau blaenorol, mae'r holl waith a wneir gan Dîm y Gymraeg fel y dengys yr adroddiad hwn, yn cyfrannu at gydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â'r Safonau.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran y canlynol:

- Gwella ansawdd y gofal a gynigiwn trwy ddewis iaith
- Gwella cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a statudol
- Canfod mentrau sydd wedi cael eu rhoi ar waith a'u cyflwyno er mwyn ymateb i angen iaith fel elfen annatod o ofal
- Gwella datblygu sefydliadol o ran sut gallwn gefnogi'r gweithlu o ran gallu cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

Rydym bellach yn awyddus i ddatblygu ein gwaith ymhellach i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol fel y gallwn wella ein gwasanaethau ymhellach ar gyfer cleifion sy'n medru'r Gymraeg yn eu dewis iaith, ac i geisio newid y ffordd y caiff rhywfaint o'n gwaith ei wneud ar lwyfannau digidol o ystyried y cyfyngiadau presennol sy'n effeithio ar y sector gofal iechyd.